OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1161 (Cy.76)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Dirymu) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *13 Ebrill 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *15 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Dirymu) (Cymru) 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 15 Ebrill 2005, yn gymwys o ran Cymru.

**Dirymu Rheoliadau**

**2.** Mae'r Rheoliadau canlynol wedi'u dirymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru —

(a) Rheoliadau Tatws s'n Tarddu o'r Iseldiroedd 1997(**3**); a

(b) Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Diwygio) 1998 (**4**).

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 1997/2441, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/3168.
(**4**) O.S. 1998/3168.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*

13 Ebrill 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 15 Ebrill 2005, yn dirymu Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd 1997 ("Rheoliadau 1997") (O.S. 1997/2441) a Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Diwygio) 1998 ("Rheoliadau 1998") (O.S. 1998/3168) i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

Yr oedd Rheoliadau 1997 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a oedd yn bwriadu mewnforio tatws a oedd yn tarddu o'r Iseldiroedd (ac a dyfwyd ym 1997) roi hysbysiad i arolygydd iechyd planhigion o'r bwriad hwnnw ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig ynglyn â'u mewnforio. Darparodd Rheoliadau 1997 hefyd bwerau gorfodi penodol i arolygwyr iechyd planhigion a rhagnodi bod ffi (a oedd yn daladwy gan y rhai yr oedd yn ofynnol iddynt ddarparu hysbysiadau) i'w thalu pan fo sampl o datws had yn cael ei gymryd gan arolygydd er mwyn canfod a oeddent wedi'u heintio â "*Pseudomonas solanacearum* (Smith) Smith".

Diwygiodd Rheoliadau 1998 Reoliadau 1997 yn y fath fodd ag i gymhwyso'r olaf i datws a dyfwyd ym 1998. Diwygiasant hefyd y ffi a oedd yn daladwy am samplu'r tatws hadyd. Nid oes effaith ymarferol bellach i'r naill na'r llall o'r Rheoliadau hyn gan nad yw tatws a oedd yn tarddu o'r Iseldiroedd ac a dyfwyd ym 1997 a 1998 yn bodoli mwyach.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn.